Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol

**Shaun McNally CBE**
**Prif Weithredwr, yr Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol**

Yr Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol
7.41, 102 Petty France
Llundain
SW1H 9AJ

DX 328 Llundain

www.justice.gov.uk

Mr Lloyd Jones
Drwy e-bost yn unig
AlunLloyd.Jones@cyg-wlc.cymru

Dyddiad: 27 Tachwedd 2017

Annwyl Mr Lloyd Jones,

**Ymateb Comisiynydd y Gymraeg i Adroddiad Monitro Blynyddol yr Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol 2016/17**

Diolch yn fawr am eich llythyr dyddiedig 25 Hydref 2017.

Yn atodiad A, mae ymateb yr Asiantaeth i gais Comisiynydd y Gymraeg am ragor o wybodaeth.

Rwy’n gobeithio y bydd yn mynd i'r afael â holl ymholiadau'r Comisiynydd.

Mae croeso i chi gysylltu â mi os oes angen rhagor o wybodaeth arnoch.

Yn gywir,

**Shaun McNally**
**Prif Swyddog Gweithredol, Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol (CBE)**

**Atodiad A: Rhagor o wybodaeth a ofynnwyd gan sylwadau Comisiynydd y Gymraeg ar Adroddiad Monitro Blynyddol yr Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol ar Gynllun Iaith Gymraeg - 2016/17.**

| **Gwybodaeth Gyffredinol** |
|---|
| Er bod yr Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol (ACC) yn cysylltu ag aelodau o'r cyhoedd o bryd i'w gilydd, mae mwyafrif y cyswllt hwn yn cael ei wneud drwy gyfreithwyr dan gontract (darparwyr) ac o dan delerau eu contract nhw mae gofyniad ar ddarparwyr i wneud pob cleient yng Nghymru yn ymwybodol o wasanaethau cyfrwng Cymraeg. |
| **Sylwadau'r Comisiynydd: 7 - Ceisiadau cymorth cyfreithiol troseddol**<br><br>Nodir nifer y ceisiadau ar-lein a wnaed yn Gymraeg hyd at ddiwedd Mawrth 2017. Mae nifer fawr o ffurflenni'r Asiantaeth ar gael yn Gymraeg ar wefan gov.uk, ond nid ydynt yn ymddangos yn amlwg ar Dudalen Gartref yr Asiantaeth.<br><br>**Pa gamau mae'r Asiantaeth wedi eu cymryd i geisio sicrhau bod Ffurflenni Cymraeg a gwasanaethau ar-lein yn ddigon amlwg i gwsmeriaid sy'n dymuno defnyddio'r Gymraeg?** |
| Drwy ddarparwyr y ceir mynediad i'r ffurflen gais ar-lein ar gyfer gwneud cais am gymorth cyfreithiol troseddol, fel y nodir yn ein Cynllun Iaith Gymraeg (tudalen 6). Mae darparwyr yn cynnig y ffurflen i gleientiaid ar yr adeg briodol, a gallan nhw gynnig y rhain yn Gymraeg.<br><br>Er bod copïau o'r ffurflenni ar gael i'w lawrlwytho ar-lein (https://www.gov.uk/government/publications/asiantaeth-cymorth-cyfreithiol-ffurflenni-cymraeg-welsh-forms), ni fydden ni'n disgwyl i gleientiaid gael gafael ar y dogfennau eu hunain oherwydd mai'r darparwyr fyddai'n eu rhoi iddynt.<br><br>Ond, o ystyried sylwadau'r Comisiynydd, rydyn ni'n derbyn nad yw'r ffurflenni'n amlwg. Yn anffodus, mae cyfyngiadau golygyddol wedi rhwystro'r ACC rhag gwneud newidiadau i'n tudalen gartref/rhestr gynnwys ar .gov felly rydyn ni wedi gwella'r ffordd mae defnyddwyr yn cael eu cyfeirio at y ffurflen Gymraeg ar y dudalen hon:<br><br>https://www.gov.uk/topic/legal-aid-for-providers<br><br>Cyn bo hir, bydd yr ACC yn defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol i drydar dolenni at y ffurflenni sydd wedi cael eu cyfieithu i'r Gymraeg.<br><br>Isod, gellir gweld y camau mae'r ACC wedi eu cymryd i wneud gwasanaethau Cymraeg ar-lein i gleientiaid yn fwy amlwg. |
| **Sylwadau'r Comisiynydd: 8 - Galwadau ffôn**<br><br>Mae'r adroddiad yn cadarnhau bod gostyngiad o 40% wedi bod yn nifer y galwadau a dderbyniwyd gan y llinell Gymraeg, o gymharu â 2015-16. Mae hyn yn dilyn gostyngiad pellach y flwyddyn flaenorol. Nodwyd bod peth o'r gostyngiad yn dilyn cyflwyno proses ddigidol, a bod cynnydd wedi bod mewn dulliau newydd i gwsmeriaid allu cael gwybodaeth a chysylltu â'r Asiantaeth.<br><br>**A yw'r Asiantaeth yn cadw cofnod o faint o gysylltiadau Cymraeg sy'n cael eu gwneud drwy'r prosesau digidol a'r dulliau newydd o gysylltu â'r Asiantaeth?** |
| Fel y nodwyd uchod, er bod yr Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol (ACC) yn cael rhywfaint o gysylltiad ag aelodau o'r cyhoedd, mae'r rhan fwyaf o'n cysylltiadau'n digwydd â darparwyr dan gontract. Mae'r darparwyr yn nodi yn ein system ddigidol a ydyn nhw neu eu cleientiaid yn dymuno gohebu |

â ni yn Gymraeg. Mae system ddigidol yr ACC yn cofnodi'r ceisiadau hyn, ac mae'r ffigyrau'n cael eu dilysu drwy gyfrif â llaw.

Yn ystod 2016/17, cafodd yr ACC gyfanswm o 121 o geisiadau i ohebu yn Gymraeg. Gweler y tabl isod i gael y ffigyrau misol.

| 2016/17 Nifer y ceisiadau am ohebiaeth Gymraeg | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Ebrill | Mai | Mehefin | Gorffennaf | Awst | Medi |
| 13 | 10 | 18 | 8 | 13 | 13 |
| Hydref | Tachwedd | Rhagfyr | Ionawr | Chwefror | Mawrth |
| 4 | 5 | 9 | 0 | 3 | 25 |

Gofynnir i'r Comisiynydd nodi bod un achos yn gallu cynnwys nifer o eitemau o ohebiaeth. Hyd yma, nid yw system ddigidol yr ACC yn cynnwys mecanwaith ar gyfer cofnodi faint o ohebiaeth sydd yn Gymraeg. I fynd i'r afael â hyn, mae'r ACC wedi gofyn i bob gweithiwr achos gofnodi pob eitem o ohebiaeth yn Gymraeg er mwyn sicrhau bod gan yr ACC waelodlin ar gyfer monitro yn y dyfodol.

**Sylwadau'r Comisiynydd: 14 - Cleientiaid**

Cyfeirir at wasanaeth ar-lein yr Asiantaeth ar gov.uk, sy'n helpu cleientiaid i ddiagnosio a yw eu problem yn dod o fewn cwmpas cymorth cyfreithiol. Fel gyda'r sylw uchod am geisiadau am gymorth cyfreithiol troseddol, nid yw'n amlwg o dudalen gartref yr Asiantaeth, nac o dudalen gyntaf y gwasanaeth penodol hwn, fod gwasanaeth Cymraeg ar gael.

**Pa gamau mae'r Asiantaeth wedi eu cymryd i geisio sicrhau bod y fersiwn ar-lein Gymraeg o 'Check if you can get legal aid' yn ddigon amlwg i gwsmeriaid sy'n dymuno defnyddio'r Gymraeg.**

Er bod modd cyfieithu'r offeryn 'Check if you can get Legal Aid' i'r Gymraeg, mae'r ACC yn derbyn y gall wneud mwy i wneud cleientiaid yn ymwybodol o'r gwasanaeth hwn ar y Dudalen Ddechrau gyntaf cyn i'r cleientiaid agor yr offeryn ei hun. Bydd yr Asiantaeth yn newid y Dudalen Ddechrau i sicrhau bod y ffaith fod yr addasiad hwn ar gael yn fwy amlwg i gleientiaid. Hefyd, bydd yr Asiantaeth yn creu tudalen newydd wedi'i chyfieithu i'r Gymraeg i roi rhagor o wybodaeth am yr offeryn.

Gobeithio y bydd y newidiadau yn eu lle yn ystod Rhagfyr 2017.

**Sylwadau'r Comisiynydd: 16 - Ymwybyddiaeth a Hyfforddiant Iaith**

Nodwyd bod yr Asiantaeth yn edrych ar gyrsiau addas ar gyfer dysgwyr uwch, gan gynnwys cyrsiau preswyl.

**Mae'r Comisiynydd wedi cael gwybodaeth gan y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol am y cynllun 'Cymraeg Gwaith'. Mae'r wybodaeth gyda'r llythyr hwn, a gobeithio y bydd y wybodaeth yn fuddiol i'r Asiantaeth.**

Diolch yn fawr am fanylion y cynllun 'Cymraeg Gwaith'. Mae hyn yn fuddiol iawn, ac yn rhywbeth y bydd yr ACC yn ystyried ei ddefnyddio i gefnogi a datblygu sgiliau ein dysgwyr Cymraeg.